

## **Gweithdy ar Flaenoriaeth newydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop: Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus a Gweithio Rhanbarthol**

Mae Echel Blaenoriaeth newydd (Blaenoriaeth 5) ar gyfer **Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus drwy Weithio'n Rhanbarthol** wedi'i sefydlu o dan raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020.

Mae'r flaenoriaeth newydd yn berthnasol i raglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a rhaglen Dwyrain Cymru ac yn werth oddeutu £27m o gronfeydd yr UE (£14m ar gyfer GCC a £13m ar gyfer DC).

### **Gweithdy - 5 Rhagfyr 2018**

Os hoffech wybod mwy, cofrestrwch i fynychu'r gweithdy yn ein digwyddiad blynyddol ar 5 Rhagfyr 2018 yng Ngwesty'r Marriott, Caerdydd.

Ebost: [WEFO-Communications@gov.wales](mailto:WEFO-Communications@gov.wales)

Mae rhagor o wybodaeth am y flaenoriaeth newydd ar gael drwy anfon e-bost i flwch post Cangen Sgiliau WEFO ([WEFOSkillsBranch@llyw.cymru](mailto:WEFOSkillsBranch@llyw.cymru))

neu drwy edrych ar y tudalennau am gyllid yr UE ar y we yn:

**Rhaglenni Dwyrain Cymru (Rhaglenni Gweithredol)**

<https://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/east-wales/?skip=1&lang=cy>

**Rhaglenni Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru a'r Cymoedd (Rhaglenni Gweithredol)**

<https://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/west-wales/?skip=1&lang=cy>

Bydd y flaenoriaeth yn gweithredu fel catalydd i ysgogi atebion rhanbarthol newydd ynghyd â modelau cynllunio a gwasanaethau, gan adlewyrchu'r agenda strategol a nodwyd yn strategaethau Llywodraeth Cymru, *Ffyniant i Bawb*, y *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* a'r *Cynllun Cyflogadwyedd*. Bydd y flaenoriaeth newydd yn helpu sefydliadau i arloesi a chydweithio ar sail ranbarthol i ddod o hyd i ffyrdd newydd o fynd i'r afael â rhai o'r heriau y maent yn eu hwynebu ac i wella'r modd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu.

Gallai'r camau gweithredu gynnwys, er enghraifft, meithrin capasiti a gallu; datblygu dulliau newydd o fynd ati i integreiddio gwasanaethau; neu drefnu gwasanaethau ac atebion ar y cyd. Mae'r Echel Blaenoriaeth yn cynnwys y posibilrwydd o gynnal nifer o wahanol weithgareddau, ond mae ganddo set o ganlyniadau allweddol sy'n ymdrin â nifer o ddulliau, gweithdrefnau ac adnoddau a ddatblygwyd.

Mae'r flaenoriaeth yn agored i ystod o ymgeiswyr, gan gynnwys rhai o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector, sefydliadau ymchwil a chyrff addysg uwch/bellach; a'r sector preifat. Disgwylir i'r buddiolwr gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus a chynllunio rhanbarthol. Bydd modd i brosiectau a gymeradwyir barhau tan 2023.

Rydym yn disgwyl i o leiaf 30 o sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus gymryd rhan mewn gwaith o dan y flaenoriaeth hon, gan helpu i ddatblygu o leiaf 20 o ddulliau, prosesau neu adnoddau newydd.